**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 41**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 19 RHAGFYR 2000

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad ynghylch penodi Paul Silk yn **Glerc newydd y Cynulliad.**

**2.08 pm**

Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ganiatáu i’r Cynnig Heb Ddyddiad canlynol gael ei ddwyn ymlaen:

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn :

Penodi Tom Middlehurst (Llafur) yn lle Rhodri Morgan (Llafur) i fod yn Gyfarwyddwr ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

Ei gwneud yn ofynnol bod Tom Middlehurst, petai’n ymarfer ei bwerau o dan Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni i benodi cyfarwyddwr arall, yn gwneud hynny yn unig drwy benodi Val Feld AC.

Penodi Tom Middlehurst i bleidleisio ar ran y Cynulliad lle bo’n briodol yn unrhyw Gyfarfod Cyfffredinol o Ganolfan Ewropeaidd Cymru, gan gymryd i ystyriaeth safbwyntiau’r pleidiau yn y Cynulliad cyn belled ag y gellir eu canfod cyn bwrw’r bleidlais.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.10 pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf

**2.43 pm**

Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar **Corus**

**3.15 pm**

**Pwynt o Drefn**

Cododd Helen Mary Jones bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 7.8 ynghylch y defnydd o iaith anweddus. Dywedodd y Llywydd y byddai'n adolygu'r cofnod.

**3.23 pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

Cymeradwywyd y datganiad busnes

**3.26pm**

**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo:-**
**Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

- Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi cael hyd i unrhyw fater yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr

2000, sy’n peri gofid.

**Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000**

Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n tynnu sylw arbennig y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 11.5 at y gorchymyn drafft, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2000 a’r memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13(i) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd y cynnig**

**3.27pm**

**Cynnig i gymeradwyo’r Adroddiad Grant Arbennig ar gyfer Costau Cyflogau Arweinwyr a Mesurau Gwella Ysgolion 2000-01**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, o dan adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo’r Adroddiad Grant Arbennig ar Grant Cynnal Ysgolion 2000-2001 (Rhif 9) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.00pm**

**Dadl ar Araith y Frenhines**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

> Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2000-2001;
>
> Yn nodi bod y Mesurau arfaethedig canlynol yn arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad:

1. Comisiynydd Plant i Gymru

2. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

3. Cartrefi

4. Diwygio trwy Reoliadau

5. Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd

> Yn neilltuo'r Mesurau uchod i'r pwyllgorau pwnc perthnasol (1 a 2: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; 3: Llywodraeth leol a Thai; 4: Datblygu Economaidd; 5: Addysg) iddynt ystyried ymhellach pa ddarpariaethau y dylent eu gwneud ar gyfer Cymru a sut y gallai'r Cynulliad ddefnyddio'r pwerau newydd a freinir iddo drwyddynt;
>
> ac yn gofyn bod pob Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad erbyn 13 Chwefror 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru );**

Ychwaneger ar ddiwedd y pwynt bwled cyntaf "ac yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw fesurau i ddelio â'r argyfwng yng nghefn gwlad Cymru".

**Gwelliant 2 - David Davies (Mynwy);**

Ar ôl y pwynt bwled cyntaf, ychwaneger pwynt bwled newydd;

Yn nodi'r effaith andwyol y byddai gwahardd hela â chwn yn ei chael ar amgylchedd cefn gwlad Cymru. Mae'r Cynulliad yn galw ar ei aelodau i fynegi eu cefnogaeth i hela â chwn, ac mae'n gofyn, yn unol ag adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i Lywodraeth y DU gael ei hysbysu am farn

y Cynulliad. Mae’r Cynulliad yn galw ar Lywodraeth y DU, yn unol ag ysbryd datganoli, i roi ystyriaeth lawn i’w farn.

**Gwelliant 3 - Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Ar ôl y pwynt bwled cyntaf, ychwaneger pwynt bwled newydd:

"yn nodi’r trydydd cyhoeddiad a deugain am dwyll mewn perthynas â thaliadau lles, a’r twyll hwnnw’n dal i gynyddu ac, erbyn hyn, wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed".

**Gwelliant 4 - Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Ar ôl y pwynt bwled cyntaf, ychwaneger:

"yn gresynu bod y Mesur Hela wedi’i gynnwys, ac yn gresynu at y rhaniadau y bydd yn eu creu mewn cymunedau yng Nghymru, ac mae’n cydnabod na fydd yn gwneud dim i fynd i’r afael â’r argyfwng sy’n wynebu cefn gwlad Cymru ar hyn o bryd."

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y pwynt bwled cyntaf, ychwaneger pwynt bwled newydd:

ac mae’n gresynu at y ffaith nad oes unrhyw ddeddfwriaeth sy’n dangos bod unrhyw ymrwymiad i ail ddosbarthu cyfoeth a ffyniant ar sail cymdeithasol nac ar sail daearyddol.

**Gwelliant 6 -Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y pwynt bwled cyntaf, ychwaneger pwynt bwled newydd:

yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyhoeddi adroddiad manwl am y gweithdrefnau y gall y Cynulliad eu defnyddio i ddylanwadu ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth.

**Gwelliant 7 -Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl ‘gyfrifoldebau’r Cynulliad’ yn yr ail bwynt bwled, ychwaneger pwynt bwled newydd;

ac mae’n galw ar Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod yr holl Fesurau sy’n effeithio ar swyddogaethau a chyfrifoldebau’r Cynulliad yn cael eu drafftio yn y fath fodd fel eu bod yn caniatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i’r Cynulliad wrth iddo roi darpariaethau’r Mesurau hynny ar waith ac wrth iddo ddatblygu polisi yn y meysydd dan sylw.

**Gwelliant 8 - Peter Rogers (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled arall ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y Mesur Hela yn arbennig o berthnasol i Gymru, ac yn cyfeirio’r mesur at y Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig er mwyn ystyried ei oblygiadau i Gymru, ac yn gofyn i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig i adrodd ar y modd y cymhwysir y ddeddfwriaeth arfaethedig yng Nghymru.

**Gwelliant 9 -Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y trydydd pwynt bwled, ychwaneger pwynt bwled newydd:

yn galw ar y Gweinidogion Cynulliad perthnasol i wneud datganiad cyn i’r mesurau hyn gwblhau eu taith drwy senedd y DU, gan ddatgan i ba raddau y mae unrhyw welliannau yn y Mesurau yn adlewyrchu sylwadau a gyflwynwyd gan y Cynulliad.

**Gwelliant 10 -Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y trydydd pwynt bwled, ychwaneger pwynt bwled newydd:

ac mae’n gresynu bod y Mesur i roi’r pwer i’r Llysoedd beidio â rhoi’r hawl i ddiffynyddion gael treial gerbron rheithgor yn mynd i gael ei ail gyflwyno; ac na chafodd unrhyw Fesur i gynnal refferendwm ar gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

**Gwelliant 11 -Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y trydydd pwynt bwled, ychwaneger pwynt bwled newydd;

yn galw ar y Weithrediaeth i ymgynghori â’r Cynulliad ynghylch pa Fesur ar gyfer Cymru’n unig y dylid gofyn amdano yn rhaglen ddeddfwriaethol y DU y flwyddyn nesaf.

**Gwelliant 12 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Ychwaneger pwynt bwled newydd ar y diwedd:

"yn cadarnhau’r hyn a ddywedwyd ganddo eisoes, sef ei fod o’r farn bod y cynnig yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull y Treial), sy’n cael ei ail gyflwyno, i ddileu hawl diffynyddion i ddewis treial gerbron rheithgor, yn ymosodiad difrifol ar ryddid sifil."

**Gwelliant 13 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Ychwaneger pwynt bwled newydd ar y diwedd:

"yn ategu’r farn bod y ddeddfwriaeth arfaethedig ar Faterion Cartref, sydd â’r bwriad o herio diwylliant yr ‘iob’, yn cynnwys mesurau cul ac anymarferol, sydd yn ddim byd ond gimics gan fod etholiad ar y gorwel."

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 21; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 15; Ymatal 6; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**

O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**

O Blaid 48; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**

O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd Gwelliant 9**

**Gwelliant 10**

O Blaid 19; Ymatal 9; Yn erbyn 22; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 10**

**Gwelliant 11**

O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd Gwelliant 11**

**Gwelliant 12**

O Blaid 28; Ymatal 13; Yn erbyn 9; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd Gwelliant 12**

**Gwelliant 13**

O Blaid 20; Ymatal 8; Yn erbyn 22; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd y gwelliant 13**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 49; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.34pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 11 Ionawr 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**PETITION TO THE ASSEMBLY**

Deiseb, oddi wrth "BACK THE VALE-CEFNOGWCH Y FRO" i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Cyfanswm y llofnodwyr 3,479.

Rydym ni a enwir isod yn gwrthwynebu cynnig Cynulliad Cenedlaethol Cymru I newid y Fformiwla dosbarthu grantiau gan y bydd hyn yn anfanteisio preswylwyr y Fro. Rydym yn cytuno nad yw’r Fro yn cael ei ariannu’n ddigonnol ac y dylai’r Fro dderbyn mwy o’r arian NAFW sydd wedi cael ei ddosbarthu I awdurdod lleol hyd yn oed os yw cyfanswm yr arian yn cynyddu.

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 15 RHAGFYR 2000**

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 00-03: Further Education in Wales - The Cabinet of the National Assembly's update to the report. Dim Copi Cymraeg ar gael

**DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 14 RHAGFYR 2000**

Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001

Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001